



CYMRU WLEDIG
LPIP
RURAL WALES

Cymru Wledig LPIP Rural Wales

**Adroddiad
Blynyddol
2026** 

**Annual
Report
2026** 



Croeso



Professor Michael Woods, Cymru Wledig LPIP Rural Wales Director

Mae hon yn flwyddyn fawr i gefn gwlad Cymru. Mae etholiadau'r Senedd ym mis Mai wedi rhoi Senedd estynedig ar waith sydd â mwy o gapasiti i graffu ar ddeddfwriaeth ac ymchwilio i'r heriau sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru. Er na wyddys canlyniad yr etholiad ar adeg ysgrifennu hwn, mae materion sy'n ymwneud â Chymru Wledig wedi bod yn amlwg yn yr ymgyrch ac mae'n debygol y byddant yn gryn ffocws yng ngwaith y Llywodraeth newydd ac aelodau newydd y Senedd.

Yng Nghymru Wledig LPIP Rural Wales rydym wedi bod yn brysyr gyda gweithgareddau ymchwilio ac arloesi a fydd yn helpu Llywodraeth newydd Cymru i lunio a gweithredu polisiau ar gyfer cefn gwlad Cymru, a chynorthwyo Aelodau'r Senedd i ofyn y cwestiynau cywir er mwyn sicrhau bod y polisiau hyn yn briodol ac yn effeithiol.

Rydym yn gwneud hyn mewn tair ffordd. Yn gyntaf, rydym yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth i ddeall yn well y materion a nodwyd gan ein partneriaid a'n rhanddeiliaid. Yn ystod y

flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal ymchwil ar gael gafael ar fwyd mewn cymunedau gwledig; cadw treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol Cymru; defnyddio mannau cymunedol yn well; ac aml-ddatrys problemau amgylcheddol, cymdeithasol, ac economaidd drwy fentrau sero net. Mae prosiectau sy'n dal ar y gweill yn ymchwilio i effaith newidiadau mewn amserlenni bysiau ar fynediad at waith, hyfforddiant a gofal iechyd, ynghyd ag ymchwil i weithgareddau crefft gwledig; twristiaeth adfywiol; defnyddio deallusrwyddiaeth artifisial mewn amaethyddiaeth; ac allgáu digidol ac iechyd gwledig. Rydym hefyd wedi comisiynu naw prosiect gan ymchwilwyr allanol ar bynciau sy'n amrywio o brawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad i farchnadoedd llafur a modelau busnes ar gyfer mentrau cymdeithasol.

Yn ail, rydym yn trefnu i grwpiau amrywiol o bobl weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion arloesol i heriau polisi anodd. Mae ein pedwar Labordy Arloesi yn ganolog i'r gweithgaredd hwn, ac maent wedi symud o weithdai i dreialu syniadau drwy brofion "prawf o gysyniad". Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau bwyta cymunedol i fynd i'r afael ag unigrwydd cymdeithasol; cyfleoedd blasu i hybu recriwtio i'r sector adeiladu; codi ymwybyddiaeth o arddwriaeth Gymreig a rhoi mwy o lysiau Cymreig ar fwydlenni bwytai fel ffordd o hyrwyddo ffermio carbon isel; ac annog defnyddio'r Gymraeg mewn hyfforddiant chwaraeon ar lawr gwlad.

Yn yr un modd mae ein prosiect Prif-ffrydio Cydraddoldebau wedi ymgynnull panel o ddefnyddwyr trafniadaeth ac eiriolwyr amrywiaeth i adolygu polisiau ar gyfer trafniadaeth sy'n gymdeithasol

angenrheidiol, gan lunio argymhellion ar sut i'w haddasu er mwyn iddynt weddu'n well i amgylchiadau gwledig ac anghenion grwpiau amrywiol o ddefnyddwyr.

Yn drydydd, rydym yn helpu i rymuso cymunedau gwledig iddynt fedru gwneud eu hymchwili eu hunain er mwyn ymgysylltu'n fwy effeithiol â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Aelodau'r Senedd, ac Aelodau Seneddol ar bryderon lleol. Ers mis Hydref diwethaf rydym wedi cefnogi chwe phrosiect dan arweiniad cymunedau a'r rhain wedi'u dewis drwy gystadleuaeth agored, ac yn eu plith mae prosiectau sy'n asesu'r angen am dai yn Nyffryn Peris; yn archwilio newid hinsawdd gyda ffoaduriaid a lleiafrifoedd ethnig yn Sir Benfro; ac yn defnyddio dulliau theatr i ymgysylltu â ffermwyr ifanc ym Mhenllŷn ar broblemau iechyd meddwl.

Rydym hefyd yn dechrau edrych tuag at ddiwedd ein cyllid presennol gan UKRI yn gynnar y flwyddyn nesaf ac yn chwilio am ffyrdd y gallwn gynnal ein gweithgareddau y tu hwnt i hynny. Gobeithiwn y byddwn yn gallu parhau i sicrhau bod ein harbenigedd ar gael i gefnogi polisi gwledig ac i adeiladu ar y dulliau rydym wedi'u datblygu ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a'u grymuso. Rydym yn agored i drafodaethau ynghylch cydweithrediaadau a all helpu i gyflawni hyn.

Gallwch ddarllen am yr holl weithgareddau hyn a mwy yn yr adroddiad hwn. Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ar ein gwefan, www.lpip.cymru sy'n cynnwys adroddiadau prosiectau a Briffiau Polisi, yn ogystal â Hyb Data Cymru Wledig, sy'n rhoi mynediad at ddata o'n hymchwili a setiau data eraill ynghyd â mapio rhyngweithiol.

Effaith newidiadau yn y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ar fynediad at wasanaethau gofal iechyd, cyflogaeth, ac addysg a hyfforddiant yng Nghymru Wledig

Yr Athro Scott Orford, Dr Andrew Price, a Dr Lucy Baker

Mae mynediad at rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol yng nghefn gwlad Cymru yn thema sy'n codi'n gyson mewn sgysiau mewn cymunedau gwledig. Bydd y prosiect hwn yn dadansoddi gwasanaethau bysiau yng Nghymru Wledig er mwyn nodi pa lwybrau/gwasanaethau sydd wedi'u dileu neu eu newid ers 2019, ynghyd â'r manau a nifer y bobl yr effeithiwyd arnynt. Bydd yn modelu effaith y newidiadau hyn ar fynediad at wasanaethau gofal iechyd, ysgolion a cholegau, a lleoliadau cyflogaeth pwysig. Bwriad y prosiect yw ymchwilio i newidiadau posibl y gellid

eu gwneud i'r rhwydwaith bysiau (er enghraifft, o dan fasnachfreinio) er mwyn gwella hygyrchedd i'r safleoedd allweddol hyn. Bydd yr ymchwil yn defnyddio dull data eilaidd a modelu gofodol gan ddefnyddio data, modelau, a meddalwedd presennol a ddatblygwyd gan WISERD. Gan adeiladu ar ymchwil gefndirol sy'n bodoli eisoes ar gyfer Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), a defnydd posibl ar system fasnachfreinio, bydd yr ymchwil hefyd yn cael ei lywio gan waith ansoddol Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd ar y rhwystrau y

mae gwahanol grwpiau o bobl yn eu hwynebu o ran hygyrchedd bysiau (e.e. menywod, pobl sydd ag anableddau a symudedd cyfyngedig, a phobl hyn) yng Nghymru Wledig.

Mae'r prosiect hwn i'w gwblhau erbyn Haf 2026, gyda'r allbynnau'n cael eu rhannu â rhanddeiliaid megis Trafnidiaeth Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB), a Byrddau Iechyd i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol, yn ogystal â chael eu cyhoeddi ar ddangosfyrddau rhyngweithiol ar Hyb Data Cymru Wledig LPIP Rural Wales.





Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol yng nghefn gwlad Cymru

Dr Elen Bonner, Dr Eifiona Thomas Lane, Dr Sean Martin, a'r Athro Rhys Jones

Mae trafodaethau cenedlaethol yn mynd ati fwyfwy i ystyried sut y dylid adnabod a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol (ICH), ac mae cynnydd yn niddordeb polisiau mewn blaenoriaethau diwylliannol a fframweithiau diogelu i'r dyfodol. Felly, mae'r prosiect hwn yn sylfaen dystiolaeth amserol a dibynadwy sy'n dangos sut mae treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol (neu arferion treftadaeth fyw) yn cael eu creu a'u hail-greu mewn cymunedau gwledig ar adeg pan fo cynnydd yn y sylw i ddatblygiad polisi diwylliannol yng Nghymru.

Edrychodd ein hymchwilyr ar dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yng nghefn

gwlad Cymru drwy ddull astudiaeth achos cymysg, gan gynnwys ymchwil archifol, adolygiad o bolisiau, a chyfweiliadau ag ymarferwyr a rhanddeiliaid treftadaeth o'r fath. Nodwyd amrywiaeth o arferion, gan gynnwys eisteddfodau lleol, canu Plygain, a sioeau amaethyddol.

Dengys y canfyddiadau cynnar fod treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn cael ei gynnal drwy ymdrechion ar y cyd gan ymarferwyr treftadaeth fyw, sef y rheiny sy'n addysgu, yn perfformio neu'n trosglwyddo arferion yn uniongyrchol, a'r llu o wirfoddolwyr sy'n darparu'r seilwaith trefnu a logistaidd sydd ei angen er mwyn i ddigwyddiadau cymunedol allu digwydd.

Mae'r digwyddiadau hyn eu hunain yn lleoliadau hanfodol i roi'r dreftadaeth ar waith, ei rhannu a'i haddasu dros amser. Ledled y gweithgareddau, mae cymryd rhan yn parhau i fod yn rhan bwysig iawn ohonynt, ac mae'r Gymraeg yn dal i fod â rhan ganolog yn y cymunedau a astudiwyd.

Mae'r astudiaeth yn cyfrannu sail dystiolaeth bwysig ar gyfer dulliau diogelu yn y dyfodol, gan amlygu pwysigrwydd cefnogi deiliaid gwybodaeth ddiwylliannol, gwirfoddolwyr, a'r digwyddiadau cymunedol sydd gyda'i gilydd yn galluogi treftadaeth i ffynnu yng nghefn gwlad Cymru. Bydd yr adroddiad llawn ar gael erbyn Haf 2026.

Defnyddio deallusrwydd artifffisial a thechnoleg ddigidol: cefnogi Sero Net mewn amaethyddiaeth

Dr Sophie Wynne-Jones, Yr Athro Matt Reed,
Dr Elen Bonner a Dr Aimee Morse

Mae ymchwilwyr o Grŵp Thematig Sero Net yn archwilio sut y gall Deallusrwydd Artiffisial (AI) a thechnolegau digidol gefnogi Cymru i symud tuag at amaethyddiaeth sero net. Mae ffermio a defnydd tir mewn ardaloedd gwledig yn ganolog i leihau allyriadau a gwella dal carbon drwy atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae sicrhau'r newidiadau hyn yn gofyn am dulliau newydd o reoli tir, wedi'u seilio ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Er bod rhywfaint o ddealltwriaeth yn bodoli eisoes ynghylch galluoedd ffermwyr, mae angen dealltwriaeth bellach i holi a yw offer digidol ac AI yn cynnig arloesedd ystyrlon i amaethyddiaeth yng Nghymru.

Trwy ymchwil ansoddol gyda ffermwyr a chynrychiolwyr y diwydiant ledled Cymru, mae'r prosiect yn ymchwilio i'r defnydd presennol o dechnolegau digidol ac AI, y buddion y maent yn eu cynnig ar gyfer amcanion sero net, a'r heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu wrth eu mabwysiadu. Byddwn yn asesu'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio'r offer hyn yn effeithiol, sut maent yn cyd-fynd â gwybodaeth bresennol ffermwyr, a sut mae dulliau digidol ac AI yn ategu – neu'n gwrthdaro â – dealltwriaethau traddodiadol, ar sail profiad, o reoli tir. Bydd yr ymchwil hefyd yn archwilio effeithiau posibl ar draws y sector yn

sgil y newid mewn gofynion sgiliau.

Er bod 'cynllun gweithredu tech-amaeth' Llywodraeth Cymru yn dangos cefnogaeth gref i arloesi digidol, mae cwestiynau'n parhau ynghylch addasrwydd a swyddogaethau technolegau o'r fath yng nghyd-destun ffermio yng Nghymru.

Mae ysgolheigion wedi tynnu sylw at y trawsnewidiadau systemig ehangach a'r goblygiadau cyfiawnder sy'n gysylltiedig â hyn, yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch rôl gwasanaethau cynghori ac ymestyn yn y dyfodol yn yr ecosystem arloesi sy'n esblygu.

Felly, mae gofyn a oes gan ffermwyr y "sgiliau cywir" yn fater cymhleth sy'n gysylltiedig â gwybodaeth, gwleidyddiaeth, a newid strwythurol ehangach. Nod y prosiect hwn yw cofnodi'r dimensiynau amrywiol a dadleuol hyn.



Anghydraddoldebau Trafnidiaeth Wledig drwy Ddull Prif-ffrydio Cydraddoldebau

Yr Athro Sara MacBride-Stewart a Dr Najia Zaidi



Mae ein gwaith ar thema drawsbynciol cydraddoldebau yn canolbwyntio ar dtrafnidiaeth wledig, a hyn wedi'i nodi i fod yn anghydraddoldeb allweddol ledled holl brosiectau Cymru Wledig LPIIP Rural Wales.

Yn sgil cyflwyno polisiâu a strategaeth trafniadaeth newydd yng Nghymru, ein nod oedd deall sut mae trafniadaeth "gymdeithasol angenrheidiol" yn newid, a beth sydd ei angen er mwyn iddi ddiwallu'n effeithiol anghenion y cymunedau gwledig mwyaf bregus.

Defnyddiodd y prosiect fethodoleg prif-ffrydio cydraddoldebau. Mae hwn yn ddull ymchwil cyfranogol ac ansoddol sy'n canolbwyntio ar realiti bob dydd pobl y mae eu symudedd yn dibynnu ar ddaearyddiaeth, incwm, ac iechyd. Rhwng Ionawr

ac Ebrill 2026 buom yn gweithio'n agos â phanel o 15 cynrychiolydd o grwpiau cydraddoldebau, ymarferwyr trafniadaeth, a chymunedau sy'n ymwneud â pholisi.

Cynhaliwyd chwe chyfarfod, ac ynddynt edrychodd y panel ar sut y mae pobl yn byw drwy anghydraddoldebau trafniadaeth ac yn llywio drwyddynt, ynghyd â sut y cânt eu dychmygu'n wahanol ar draws lleoedd a bywydau gwahanol.

Trwy weithdai wedi'u hwyluso, casglu tystiolaeth, a chyd-ddychmygu atebion, crëwyd manau hygyrch a chynhwysol ar gyfer myfyrio, deialog a dysgu ar y cyd. Mae'r dull yn rhoi gwerth ar brofiad byw ochr yn ochr â gwybodaeth polisi ac ymarfer, ac yn ceisio ymgorffori dulliau a pholisiâu cydraddoldeb yn gynnar yn y broses o

gynllunio a gweithredu strategaeth trafniadaeth ar gyfer cefn gwlad.

Mae'r canfyddiadau cynnar yn awgrymu'r canlynol:

- ehangu'r cysyniad o symudedd 'cymdeithasol angenrheidiol' mewn cyd-destunau gwledig;
- elfen ganolog croestoriadoldeb o ran anfantais trafniadaeth ac atebion effeithiol;
- a diffyg data ar brofiadau byw cymunedau gwledig bregus, gan amlygu'r angen am ddulliau sensitif i le a rhai sydd wedi'u prif-ffrydio o ran cydraddoldeb.

Bydd copi o'r adroddiad a dogfen frifio polisi ar gael yn Haf 2026.

Defnyddio Mannau Cymunedol yn Well

Dr Lucy Baker a'r Athro Michael Woods

Mae pob cymuned angen lle i gyfarfod a dod at ei gilydd. Gall hwn fod yn neuadd bentref neu'n neuadd ysgol, ond gall hefyd fod yn gaffi, tafarn, capel, siop, neu hyd yn oed gardd gymunedol neu berllan. Mae lleoedd fel y rhain yn rhan hanfodol o seilwaith cymunedau gwledig, ond nid yn aml y maent yn cael sylw.

Yn ein harolwg o Gyngorau Cymuned a Thref y llynedd, canfuwyd bod amrywiaeth eang o fannau cymunedol yn cael eu defnyddio ledled cefn gwlad Cymru, ond bod llawer yn wynebu heriau oherwydd costau cynyddol a pharhad gwirfoddolwyr. Cofnodwyd gennym hefyd fod cymunedau'n ysgwyddo cyfrifoldeb am gyfleusterau fel llyfrgelloedd gan gynghorau sir, ac yn cymryd caffis a siopau drosodd nad oeddent bellach yn hyfyw yn fasnachol.

Yn y prosiect dilynol hwn rydym wedi edrych yn fanylach ar ddefnydd, rheolaeth, a photensial mannau cymunedol. Datgelwyd etifeddiaeth gymysg o bandemig Covid-19: roedd grantiau a chymorth ag ardrethi busnes wedi rhoi arian i rai cyfleusterau, a'r arian hwnnw wedi'i ddefnyddio ar gyfer atgyweiriadau a gwelliannau hanfodol; ond daeth llawer o ddigwyddiadau i ben ac nid ydynt wedi ailgychwyn, ac mae gwirfoddoli wedi lleihau a heb adfer i'w niferoedd blaenorol. Mae llawer o fudiadau sy'n rheoli mannau cymunedol yn adrodd am ddiffyg arbenigedd cyfreithiol a rheoli eiddo, ac yn mynegi

pryder ynghylch olyniaeth gwirfoddolwyr. Mae'r ffactorau hyn yn tueddu i gyfyngu ar greadigrwydd, gyda chymdeithasau'n canolbwyntio ar osod ystafelloedd ar rent – yn aml i sefydliadau a mudiadau o'r tu allan i'r gymuned ar gyfer gweithgareddau nad ydynt o reidrwydd yn cynnwys trigolion lleol.

Mae rhai cymunedau wedi bod yn rhagweithiol wrth gymryd drosodd asedau megis caffis, siopau, neu dafarndai, ond mae mentrau o'r fath yn gofyn am sgiliau entrepreneuriaidd nad yw gwirfoddolwyr arferol fel rheol yn meddu arnynt. Gall tensiynau godi ynghylch rheoli asedau sy'n eiddo i'r gymuned, gyda disgwyliadau gwahanol ynghylch a ydynt yno'n bennaf i ddarparu gwasanaeth, i weithredu fel lle cyfarfod i'r gymuned, neu

i weithredu fel busnes sy'n cynhyrchu elw i fuddsoddwyr.

O ganlyniad, mae mannau cymunedol yn aml yn cael eu tanddefnyddio, ac ni chaiff eu potensial ei wireddu. Serch hynny, ceir enghreifftiau o arfer da lle mae cyfleusterau cymunedol wedi'u trawsnewid yn ganolfannau aml-wasanaeth, gan ddarparu mannau ar gyfer microfusnesau lleol neu hyrwyddo eu cynnyrch, ac wedi'u hintegreiddio i gynlluniau ynni cymunedol.

Mae mannau cymunedol angen mwy na grantiau cyfalaf yn unig ar gyfer cynnal a chadw adeiladau neu osod dyfeisiau effeithlonrwydd ynni. Byddai Hawl Cymunedol i Brynu yn hwyluso'r broses i gymunedau gymryd drosodd asedau sy'n cael eu bygwth ond sy'n gymdeithasol bwysig, ac mae angen gweithredu gan y llywodraeth hefyd i roi cyngor a hyfforddiant ac i hyrwyddo arloesedd wrth wneud y defnydd gorau o fannau cymunedol.



Aml ddatrys ar gyfer Sero Net yng Nghymru Wledig

Dr Sophie Wynne-Jones, Dr Elen Bonner, Dr Sean Martin, a Dr Siobhan Maderson

Mae'r prosiect ymchwil ymatebol 'Aml-ddatrys ar gyfer Sero Net yng Nghymru Wledig' yn archwilio sut y gellir dylunio gweithredu ar yr hinsawdd i sicrhau nifer o fuddion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, ac

amgylcheddol i gymunedau gwledig. Mae'r ymchwiliad yn seiliedig ar adolygiad desg a 22 o gyfweiliadau gydag ymarferwyr sy'n cynnal mentrau sero net sydd hefyd yn creu cyd-fuddion ehangach. Yn erbyn cefndir o ymrwymïadau argyfwng hinsawdd a heriau penodol sy'n wynebu ardaloedd gwledig, mae'r astudiaeth yn dangos sut mae "amldatrys" yn cynnig dull ymarferol sydd â ffocws ar bobl i gyflawni sero net ar yr un pryd â mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol.

Mae'r argymhellion wedi'u crynhoi yn dair thema gyffredinol.

1. Gweithredu ar yr hinsawdd sy'n canolbwyntio ar bobl, yn seiliedig ar le ac yn gynhwysol. Er mwyn adeiladu cyfreithlonrwydd a chynnal momentwm mewn amodau gwleidyddol ac economaidd heriol, dylai sefydliadau wreiddio gweithredu ar yr hinsawdd mewn cyd-fuddion y gall pobl leol uniaethu â nhw, megis gwell iechyd, llai o ansicrwydd ynni, a chryfhau asedau diwylliannol a chymunedol. Mae aml-ddatrys yn gofyn am gael parhauaeth â gwreiddiau dwfn gyda chymunedau, a hyn yn cynnwys ymgysylltu dwyieithog ac wedi'i seilio ar ddiwylliant, meithrin cysylltiadau hirdymor, a phrosesau cyd-gynhyrchu sy'n cydnabod bod profiad byw yn ffurf graidd o arbenigedd ochr yn ochr â gwybodaeth arbenigol. Dylai sefydliadau hefyd ragweld y cyfaddawdau gwledig sy'n ymwneud â thir, seilwaith, a darpariaeth gwasanaethau, gan ddefnyddio deialog gyfranogol i lywio tensiynau a datblygu atebion teg ac ymarferol.

2. Sgiliau a chapasiti
sefydliadol ar gyfer aml-
ddatrys. Mae sicrhau
canlyniadau aml-fudd yn
dibynnu ar adeiladu gallu
sefydliadol hirdymor yn
hytrach na chanolbwyntio'n
unig ar brosiectau tymor
byr. Mae hyn yn cynnwys
buddsoddi mewn
meddyflfryd systemau,
gwybodaeth ddaearyddol,
sgiliau hwyluso a chreu
cysylltiadau, a sicrhau bod
gan staff y cymhwysedd
a'r hyder i gefnogi gwaith
cydweithredol sy'n seiliedig
ar le. Mae angen galluo gwyr
strwythurol ar sefydliadau
hefyd – er enghraifft, gallu
integreiddio, amser wedi'i
neilltuo ar gyfer cydweithio,
a manau ar gyfer





dysgu traws-sector
– er mwyn sicrhau bod
gweithio mewn partneriaeth
yn digwydd yn gyson, yn
ystyrlon ac yn effeithiol.

3. Diwygio systemau a chyllid ar gyfer newid integredig hirdymor. Dylai cyrff strategol ganolbwyntio ar ail-lunio systemau sydd wedi'u cloi i mewn, megis gwastraff, trafndiaeth ac ynni, er mwyn i ddewisiadau cynaliadwy fod yr opsiynau hawsaf ym mywyd bob dydd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen modelau cyllido sy'n cefnogi parhad, integreiddio a dysgu, gyda dulliau adrodd sy'n pwysleisio sut mae

prosiectau'n cyfrannu at ganlyniadau ehangach datrys problemau lluosog yn hytrach na thargedau cul, tymor byr. Dylai awdurdodau cynllunio ymgorffori egwyddorion aml-ddatrys drwy ei gwneud yn ofynnol i geisiadau datblygu ddangos cydfuddion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol, ac economaidd, a thrwy symud tuag at fesurau cynnydd sy'n canolbwyntio ar lesiant.

 Mae copi o'r argymhellion polisi sy'n deillio o'r prosiect hwn ar gael ar ein gwefan.

**Sut caiff grwpiau
crefft lleol eu ffurfio
a pha gyfraniad
maen nhw'n ei
wneud at lesiant
cymuned?**

**Dr Lucy Baker, Dr Sophie Bennett-Gillison,
Dr Eifiona Thomas-Lane,
a'r Athro Thora Tenbrink**

Gan ddechrau ym mis Mawrth 2026, mae'r prosiect ymchwil ymatebol hwn yn waith cydweithredol rhwng dau o bedwar grŵp thematig Cymru Wledig LPIP Rural Wales: sef Adferiad Diwylliannol ac Economi Adfywiol. Bydd y prosiect yn nodi'r gwahanol fathau o grwpiau crefft sy'n bodoli yn lleol yng nghefn gwlad Cymru drwy ymchwil desg wedi'i chyfoethogi gan wybodaeth leol. Nod hyn yw creu teipoleg o grwpiau crefft er mwyn deall eu gwerth economaidd-gymdeithasol i'r ardal leol, ac ystyried cydlyniant cymunedol a lles y gymuned. Llunnir astudiaethau achos ar gyfer pob math o grŵp crefft er mwyn archwilio strwythur y grŵp, y rhesymau dros greu'r grŵp, ei gyfraniad i'r gymuned, y cymorth sydd ar gael, a'i ddatblygiad yn y dyfodol.

Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gwblhau yn hydref 2026.





Menywod ac arallgyfeirio ffermydd

Yr Athro Sara MacBride-Stewart, Dr Lucy Baker, Dr Elen Bonner, a Dr Alison Parken

Cyflwynodd Adroddiad Blynnyddol 2025 y prosiect hwn pan oedd yn ei gamau cynnar, gan gydnabod bod menywod yn chwarae rhan bwysig mewn amaethyddiaeth gyfoes, ac yn enwedig yn y broses o arallgyfeirio gweithgareddau fferm er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Yn dilyn misoedd o gyfweiliadau â 29 o fenywod sy'n weithgar ym maes arallgyfeirio ffermydd yng Nghymru, rhai ohonynt hefyd yn cynrychioli sefydliadau ffermio, mae'r tîm ymchwil wedi mynd ati gyda chyfranogwyr yr ymchwil, llunwyr polisi, a sefydliadau'r trydydd sector i gadarnhau'r argymhellion polisi penodol ar gyfer sut y gellir defnyddio cyfranogiad menywod wrth arallgyfeirio ffermydd – gan gynnwys ffurfiau cynaliadwy o ffermio – er mwyn gwella llwybrau, cymorth, a chanlyniadau ar gyfer arallgyfeirio ffermydd yng Nghymru:

1. darparu gwell mynediad at gyngor a busnesau sy'n benodol i ffermio ar gyfer menywod;
2. rhoi sylw i gyfraniadau menywod – y raddfa lai, ynghyd â'u hanghenion dysgu a'u heriau o ran amser;
3. cefnogi polisiau datblygu gwledig sy'n helpu menywod i greu a datblygu eu gweithgareddau arallgyfeirio fferm.

Roedd hi'n bleser gennym gynnal y digwyddiad ymchwil a pholisi olaf ar gyfer y prosiect hwn yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf 2025, lle cyflwynwyd y canfyddiadau a'r argymhellion polisi a ddeilliodd o'r ymchwil. Rhannodd y panel a'r gynulleidfa straeon am arloesedd, yn ogystal â bywydau o fod dan bwysau eithriadol a'u gwaith gofalu. Roedd cefnogaeth i'r angen i gydnabod cyfraniad menywod

(sgiliau, gwybodaeth, gweithgareddau ar raddfa fach) a darparu cymorth i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu menywod (unigrwydd, perchnogaeth, amser).

Un o uchafbwyntiau'r sesiwn oedd trafodaeth panel gydag Abi Reader (ffermwraig llaeth a Dirprwy Lywydd NFU Cymru), Eirwen Williams (ffermwraig a Chyfarwyddwr Cyflawni Gwasanaethau, Mentera) ac Ellen Firth (entrepreneur arobryn o Firth FlockFlowers).

Rhoddodd y siaradwyr gipolwg meddylgar i'r mathau o systemau cymorth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fenywod – gan dynnu sylw at y ffaith y gall arallgyfeirio ar ffermydd chwarae rhan allweddol. Drwy ymestyn allan i feysydd newydd, mae menywod yn gallu goresgyn ansicrwydd personol, ymgymryd â heriau newydd, a chael gafael ar ystod ehangach o gyfleoedd gwaith.

Cwblhawyd y prosiect hwn yn hydref 2025. I gael rhagor o wybodaeth a chopi o'r ddogfen briffio polisi, ewch i'r wefan.

Prosiectau ymchwil wedi'u comisiynu'n allanol

Er mwyn elwa'n llawn ar arbenigedd academyddion ac ymarferwyr y tu hwnt i'n partneriaid presennol, comisiynodd Cymru Wledig LPIP Rural Wales nifer o brosiectau ymchwil allanol ym mis Ionawr 2026, gan wahodd ceisiadau gan gydweithwyr y mae eu meysydd ymchwil yn cyd-fynd â'n rhai ni.

Roedd cyllid ar gael ar gyfer hyd at 10 prosiect newydd, a phleser oedd cadarnhau'r prosiectau llwyddiannus hyn ym mis Mawrth 2026:

- **Modelau Busnes ar gyfer Mentrau Cymunedol**
Lyndon Murphy (Prifysgol Aberystwyth), Michael Price (Prifysgol Northumbria) a Teresa Allen (Prifysgol Aberystwyth)
- **Manteisio ar Fuddion Cymdeithasol Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy sy'n Berchen i'r Gymuned** Martin Phillips (Prifysgol Caerlŷr)
- **Dynameg y Farchnad Lafur yng Nghefn Gwlad Cymru**
Shafiul Azam, Maria Plotnikova a Peter Midmore (Prifysgol Aberystwyth)
- **Modelau ar gyfer Cryfhau Prawfesur Gwledig yng Nghymru**
Jane Atterton (SRUC) a Sally Shortall (Prifysgol Newcastle)
- **Hyrwyddo Cyfnerthedd Diwylliannol a Llesiant ym Mharc Cenedlaethol Eryri**

Lynda Yorke, Alex Ioannou, Sara Parry a Sonya Hanna (Prifysgol Bangor)

- **Clystyru Daearyddol Sectorau Busnes yng Nghefn Gwlad Cymru**
Edward Thomas Jones (Prifysgol Bangor), Debbie Jones a Ffion Jones (M-SPARC)
- **Deall Gweithwyr Llawrydd Creadigol yng Nghefn Gwlad Cymru**
Nick Clifton (Prifysgol Met Caerdydd) a Darja Reuschke (Prifysgol Birmingham)
- **Y Gymraeg yn Galluogi neu'n Rhwystr mewn Prosiectau Cydweithredol**
Cynog Prys a Rhian Hodges (Prifysgol Bangor)
- **Beth allwn ni ei ddysgu o sut mae Mudiadau Cymunedol a Diwylliannol yn Ymgysylltu ac yn**

Gweithredu Polisiâu Sero Net

Aly Passanante, Martina Feilzer a Robin Mann (Prifysgol Bangor)

Rydym yn falch iawn o gael y cyfle hwn i gydweithio'n ehangach ag unigolion a sefydliadau sy'n frwd dros ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ymchwil ar gyfer Cymru Wledig. Edrychwn ymlaen at archwilio sut y gall y prosiectau newydd hyn gyfrannu at themâu ehangach y bartneriaeth, a sut y gallwn gymhwyso'r ymchwil hwn a chyfrannu at brosiectau gwledig y tu hwnt i Gymru (gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 32).

Bydd y prosiectau llwyddiannus hyn yn rhedeg am 6 mis, a bydd copïau o'r adroddiadau ar gael ar ein gwefan ar ôl eu cwblhau.



Cryfhau data ar gyfer llunio polisi



Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn ehangu ac yn diweddarau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llunio polisi ar gyfer Cymru Wledig drwy gyfres o arolygon sy'n casglu data newydd.

Yn ogystal â'r Arolwg Troseddau Gwledig yr adroddir arno (ar y dudalen nesaf), ac arolwg i Gyngorau Cymuned a Thref a adroddwyd yn Adroddiad Blyneddol y llynedd, mae gennym dri arolwg arall ar y gweill yn ystod 2026:

Ail-lansiwyd **Arolwg Busnes Cymru Wledig LPIP Rural Wales** ym mis Mai mewn partneriaeth â Business News Wales. Mae'r holiadur wedi'i integreiddio â chynnwys

Economi Wledig Business News Wales, ac mae bellach wedi'i ailstrwythuro i fod yn gyfres o holiaduron pwls bob pythefnos ar bynciau sy'n cynnwys iechyd busnes, gweithwyr a recriwtio, ymgysylltiad â'r gymuned leol, arferion amgylcheddol, a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae **Arolwg Ardaloedd Gwledig Anghysbell** yn ailedrych ar ymchwil a gwblhawyd gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008–09, sef cynnal arolwg o ddrws i ddrws o bob cartref mewn pedwar cymuned – Aberdaron (Gwynedd), Clydau (Sir Benfro), Llanfihangel-yng-Ngwynfa (Powys), a Llangammarch (Powys) – yn ystod mis

Mehefin. Mae'r arolwg yn archwilio'r heriau penodol sy'n wynebu bywyd mewn cymunedau gwledig mwy anghysbell, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth a thai, effaith cynnydd yng nghostau byw, a dymameg mudo i mewn ac allan o'r ardaloedd hyn.

Mae **Arolwg i Bobl Ifanc Cefn Gwlad** yn cael ei gynnal dros yr haf fel dilyniant i arolwg yn 2021. Mae'r holiadur, wedi'i lunio ar y cyd â chyfranogwyr o Senedd Ieuenctid Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, a sefydliadau ieuenctid eraill, yn archwilio profiadau a phryderon pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru Wledig, ynghyd â'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Arolwg Troseddau Fferm a Chefn Gwlad

Dr Wyn Morris a
Dr Gareth Norris

Yn ddiweddar cwblhawyd ymchwil yn edrych ar droseddau ffermio a gwledig yng nghefn gwlad Cymru, gan fod â data arolwg o 164 o ymatebwyr ledled Cymru a 63 o ymatebwyr yn ardal Dyfed-Powys. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n datgelu heriau parhaus yn ymwneud â dioddef troseddau, diffyg adrodd i'r heddlu, effeithiolrwydd plismona, a'r effeithiau cymdeithasol ehangach ar gymunedau gwledig.

Rydym wedi llunio dau adroddiad o ganlyniad i'r gwaith hwn, sef 'Troseddau Fferm a Chefn Gwlad yng Nghymru 2025'; a 'Canfyddiadau Ffermwyr am Droseddau Fferm a Gwledig yn ardal Heddlu Dyfed-Powys'. Mae'r ddau adroddiad yn archwiliad cynhwysfawr o droseddau ffermio a gwledig ledled Cymru ac o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys, ac mae'n gwneud nifer o argymhellion, megis: cryfhau capasiti plismona gwledig; gwella cyfathrebu; ehangu cymorth ar gyfer technolegau diogelwch; a chryfhau gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth i ddioddefwyr.

Maent yn pwysleisio bod troseddau gwledig yn gofyn am ddulliau arbenigol, wedi'u hariannu'n briodol, ac wedi'u gwreiddio yn y gymuned er mwyn gwella ymddiriedaeth, cynyddu lefelau adrodd, a chryfhau gwytnwch cymunedau ffermio Cymru.



Lledled Cymru, dioddefodd 22% o ffermydd drosedd yn ystod y 12 mis blaenorol, a'r drosedd fwyaf cyffredin oedd lladrad – yn enwedig dwyn peiriannau – gan gyfrif am 65% o'r digwyddiadau.



Mae cŵn yn poeni da byw, ymdrechion i ladrata, fandaliaeth, a throseddau amgylcheddol megis tipio anghyfreithlon (a adroddwyd gan 81% o ymatebwyr) hefyd yn gyffredin iawn. Mae diffyg adrodd i'r heddlu yn fater hollbwysig: ni wnaeth 78% o ddioddefwyr adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu, yn aml oherwydd yr argraff "nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud am y peth".



Ystyrir mai cyfyngedig yw effeithiolrwydd yr heddlu. Yn ardal Dyfed-Powys, rhoddodd ffermwyr sgôr

o 5/10 i berfformiad yr heddlu, gyda phryderon ynghylch amseroedd ymateb araf, diffyg gwaith dilynol, a diffyg digon o bresenoldeb yng nghefn gwlad. Mae un adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith fod 47% o ddioddefwyr wedi rhoi'r sgôr isaf bosibl (1/10) i ymateb yr heddlu.



Mae ffermwyr wedi ymateb drwy fuddsoddi'n helaeth mewn diogelwch – teledu cylch cyfyng (CCTV), cloeon, larymau, a systemau olrhain GPS – ond mae'r mesurau hyn yn gosod baich ariannol ac emosïynol sylweddol arnynt.



Mae trosedd hefyd yn effeithio ar lesiant: nododd 87% effeithiau ar iechyd meddwl, gan gynnwys gorbryder a newidiadau mewn ymddygiad, megis osgoi rhai ardaloedd.

Trefnu ymchwil gweithredu dan arweiniad cymunedau

Yn Adroddiad Blynyddol 2025, dathlwyd lansio prosiectau peilot ymchwil gweithredu dan arweiniad y gymuned, wedi'u harwain gan ein partner strategol Gyda'n Gilydd Dros Newid / Together For Change. Mae tri o'r meysydd prosiect hyn bellach wedi cwblhau eu hymchwil, a bydd yr adroddiadau ar gael yn ddwyieithog ar wefannau LPIP a Gyda'n Gilydd Dros Newid.

Corwen – Anghenion Trafnidiaeth

Aeth Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych ati i gynnal ymchwil i asesu'r angen ar gyfer ehangu ei Chynllun Ceir Cymunedol Gwledig i ardaloedd cefn gwlad Sir


Ddinbych nad oes digon o wasanaeth ynddynt.

Nod yr astudiaeth oedd deall demograffeg, ymddygiad teithio, ac anghenion trafniadaeth trigolion, yn enwedig y rheiny heb fodd o ddefnyddio cerbydau preifat, ac i werthuso atebion trafniadaeth amgen.

Er bod tystiolaeth glir yn dangos diffyg trafniadaeth gyhoeddus i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal astudio arfaethedig, a bod buddsoddiad cyfyngedig mewn seilwaith gwledig wedi golygu bod cymunedau gwledig yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu o wasanaethau hanfodol, daeth yr ymchwilwyr i'r

casgliad nad yw'n argymhell ehangu'r Cynllun Ceir Cymunedol Gwledig. Y rhesymau a nodwyd oedd prinder perchenogion/gyrwyrr gwirfoddol, ymarferoldeb gweithredol anodd, a'r ansicrwydd presennol ynghylch diwygio polisi bysiau yn genedlaethol, ynghyd â Grant Refeniw Trafnidiaeth Gymunedol Gogledd Cymru.

Yn hytrach, mae dull cydgysylltiedig sy'n cynnwys gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, atebion amgen, ac eiriolaeth bolisi yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â heriau trafniadaeth wledig a gwella lles cymunedol.





Penrhyn Dewi – Cynefin

Bu ymchwilwyr gweithredu cymunedol, dan arweiniad cydlynnydd lleol, yn cynnal ymchwil desg, ymgysylltu cyhoeddus, a chyfweliadau â busnesau ledled Penrhyn Dewi o dan y thema Economi Adfywiol.

Canfuwyd cefnogaeth gref ar y cyfan i fenter economaidd sy'n hyrwyddo tarddiad lleol, ar yr amod bod y fenter honno yn syml, yn gredadwy, ac yn sicrhau gwerth ymarferol.

Dangosodd gwaith mapio a brandio gyda'r gymuned leol pa mor gymhleth oedd hi i ddiffinio "y Penrhyn" a phwysigrwydd hunaniaeth glir sy'n seiliedig ar Dyddewi.

Ar y cyfan, mae awydd cryf am fenter Tarddiad/Lleol i Benrhyn Dewi a fydd yn uno hunaniaeth leol, yn cryfhau rhwydweithiau, yn gwella dealltwriaeth ymwelwyr, ac yn hyrwyddo'r economi leol, ar yr amod ei bod yn parhau'n ymarferol, yn dryloyw, ac yn ymatebol i realiti amrywiol cael gafael ar gynnyrch lleol.

Neuadd Bentref Trawsfynydd

Mae'r prosiect hwn am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc lleol a gweithio gyda nhw i feddwl am ffyrdd eraill amgen ac arloesol o ddefnyddio gofod y neuadd bentref a datblygu hynny. Trwy gyfres o weithdai creadigol, ymgynghoriadau, a chymorth ymarferol, nod y prosiect yw rhoi llais a pherchnogaeth i bobl ifanc yn nyfodol y neuadd, deall anghenion lleol yn well, dysgu beth mae pobl ifanc ei eisiau, a datblygu rhaglen o ddigwyddiadau. Mae'r prosiect hwn yn dal ymlaen.

Y Drenewydd – Lleisiau hyfforddiant y Drenewydd

Canolbwyntiodd prosiect 'Lleisiau'r Drenewydd' ar gynnal gweithdy i hyfforddi pobl ar sut i gasglu straeon drwy ddulliau creadigol, er mwyn cefnogi'r nod o sicrhau bod mwy o leisiau'n

cael eu clywed yn y Drenewydd.

Gwelwyd mwy o ymwybyddiaeth a gallu yn lleol mewn dulliau ymchwil creadigol, a chyfrannodd hyn at gryfhau cysylltiadau cydweithredu. Yn yr adolygiad ar ôl y digwyddiad, nododd aelodau o Dîm

Prosiect Lleisiau'r Drenewydd fod diddordeb cryf yn y dulliau ymchwil creadigol, gan bwysleisio'n arbennig y gallai sesiynau dilynol helpu i gryfhau lleisiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ledled y dref. Mae'r prosiect peilot yn y Drenewydd bron â'i gwblhau.

Biosffer Dyfi – Sgrechian a Socian

Nod y prosiect hwn oedd holi 'A oes perthynas glir rhwng iechyd afonydd a goroesiad y wrenol ddu?', a rhedodd o fis Ebrill tan fis Medi 2025. Drwy gynnal arolygon o boblogaeth y gwenoliaid duon ac iechyd afonydd ar draws Biosffer Dyfi, cafwyd casgliad o ddata sylfaenol ar gyfer monitro newidiadau dros amser.

Cynhaliwyd yr ymchwil gan ddau grŵp cymunedol, sef Lab Dŵr Dyffryn Dyfi a Phrosiect Gwenoliaid Duon Biosffer Dyfi mewn

partneriaeth â Biosffer Dyfi. Roedd partneriaeth agos â Chymdeithas Pysgodfeydd Newydd Dyfi hefyd yn allweddol yn llwyddiant y prosiect hwn.

Rhan hollbwysig o'r prosiect oedd cydlynnydd rhan-amser cyflogedig a estynnodd allan at aelodau'r gymuned mewn mannau lleol (megis tafarn y pentref), gan lwyddo i recriwtio ystod eang o bobl i gymryd rhan.

Gallwch ddarllen mwy am effaith prosiect 'Sgrechian a Socian' ar dudalen 33.



Cam 2: Cyllido chwe chymuned newydd

Yn yr ail gam, mae'r rhaglen Ymchwil Gweithredu dan Arweiniad y Gymuned wedi'i hymestyn i chwe chymuned newydd, a'r rhain wedi'u dewis drwy gystadleuaeth agored yn haf 2025 gan ddenu 47 o ymgeiswyr.

Dyfarnwyd £20,000 o gyllid uniongyrchol i'r cymunedau llwyddiannus ar gyfer ymchwil rhwng hydref 2025 a haf 2026.

Cwmni'r Frân Wen, Penllŷn

Mae'r prosiect hwn, o'r enw Praidd, yn ymateb theatrig i'r heriau niferus sy'n wynebu'r sector amaethyddol ifanc yng nghefn gwlad Cymru: materion megis pwysau economaidd, newidiadau demograffig, pwysau gwaith, a'r unigedd sy'n gysylltiedig â bywyd amaethyddol.

Nod Praidd yw cyfuno'r angen cymdeithasol i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc cefn gwlad â'r dulliau creadigol sydd eisoes yn rhan o fywyd y gymuned.



Llandysul a Phont Tyweli Ymlaen, Llandysul

Bydd y prosiect hwn yn archwilio sut y gellir mynd ati i integreiddio diwylliant,

economi, a lles yn well er mwyn cefnogi adfywio yn nhref wledig Llandysul yn y Canolbarth; gan ail-ddychmygu Llandysul yn

dref fach gysylltiedig a bywiog, ac uno diwylliant, economi, a lles ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Mentor Academaidd, Dr Wyn Morris, wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r gymuned hon ers dechrau'r prosiect, ac meddai: "Er ei bod hi'n ddyddiau cynnar ar y prosiect, rydym wedi recriwtio Ymchwilydd Cymunedol, ac rwyf wedi mwynhau gweithio'n agos gyda nhw, gan sicrhau bod lleisiau grwpiau amrywiol yn cael eu clywed yn ystod y broses gyfweld a chynnal arolwg.

Wrth fod mor gynhwysol â phosibl o ran demograffeg, rwy'n edrych ymlaen at weld yr effaith fwriadol y bydd y prosiect hwn yn ei chael yn Llandysul."



Eryri-Bywiol Cyf Snowdonia-Active, Llyn Padarn

Llyn Padarn, Llanberis, yw un o lynnoedd naturiol mwyaf Cymru ac mae dan bwysau mawr yn sgil defnydd hamdden a llygredd carthffosiaeth. Mae'r prosiect hwn am weld a yw fforwm o randdeiliaid lleol yn ffordd ddefnyddiol i gydweithio drwy ddull dalgylch ar gyfer rheoli Llyn Padarn.

Mae'r fforwm wedi sefydlu gweithgor i brofi ansawdd dŵr, ac un arall i edrych ar effeithiau gweithgareddau hamdden, gan gyfarfod dair gwaith yn ystod cyfnod y prosiect.



Partneriaeth Dyffryn Peris

Nod Partneriaeth Dyffryn Peris yw deall anghenion tai pobl sy'n byw yn yr ardal leol, er mwyn datblygu a hyrwyddo ymyriadau pellach, a cheisio cael atebion sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau tai, iaith, a hinsawdd.

Mae'r ymchwil yn cynnwys arolwg cyhoeddus, grwpiau ffocws, a chyfweiliadau un-i-un, gyda'r nod o ddeall realiti hanfodol byw yn yr ardal ac, yn y pen draw, archwilio gwahanol fodelau o ddarparu tai dan arweiniad y gymuned.



CIC Addysg a Grymuso Cymunedol Sir Benfro (PEACE)

Mae 'Hinsawdd a Chymuned: Grymuso Cymunedau Mudol a Mwyafrif Byd-eang yn Sir Benfro ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy' yn brosiect sy'n deillio yn uniongyrchol o sgysiau lleol a phrofiadau byw cymunedau mudol a mwyafrif byd-eang yn Sir Benfro.

Bydd mwy o ymgysylltu a sgysiau gyda gwahanol gymunedau yn galluogi tîm PEACE i gasglu tystiolaeth glir o'r hyn sydd ei angen er mwyn gwneud gweithredu amgylcheddol yn Sir Benfro yn wirioneddol gynhwysol.



Yr Orsaf, Dyffryn Nantlle

'Sut gall cynhyrchwyr llysiau a ffrwythau lleol gyflenwi eu cynnyrch i drigolion mewn ffordd fforddiadwy a chynaliadwy drwy fanwerthwyr lleol?'

Mae'r Orsaf yn gydweithredu rhwng ffermydd lleol ac ymchwil gymunedol i ymchwilio i effeithiolrwydd Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy wrth bontio'r bylchau rhwng y cyflenwad a'r galw er mwyn hyrwyddo cynhyrchu a bwyta bwyd lleol.



Hyfforddi ar gyfer Ymchwil Cymunedol

Am bob sefydliad sy'n derbyn cyllid, mae sawl un arall mewn cymunedau ledled Cymru, a thu hwnt, sydd â syniadau neu gynigion gwych eu hunain ond sydd angen arweiniad a chyllid i wireddu eu prosiectau.

O ganlyniad, mae Gyda'n Gilydd dros Newid / Together for Change, mewn partneriaeth â Cymru Wledig LPIP Rural Wales, wedi creu cyfres o seminarau a gweminarau sy'n canolbwyntio ar bynciau gwahanol er mwyn cynghori, hyfforddi ac ysbrydoli grwpiau cymunedol eraill.

Mae'r sesiynau ar-lein a'r sesiynau wyneb yn wyneb wedi'u hariannu'n llawn ac maent yn gyfle i ddysgu beth yn union yw ymchwil gweithredu dan arweiniad y gymuned, yn ogystal ag ennill sgiliau sylfaenol mewn casglu a dadansoddi data ymchwil, dysgu sut i annog mwy o bobl i gymryd rhan, ac archwilio beth allai cydweithio ag academyddion a llunwyr polisi ei olygu i gymunedau yng Nghymru.

Mi wnes i fynychu cyfarfod lle deimlais i gysylltiad â'r bobl eraill yno, cael rhannu profiadau tebyg a chael fy nghlywed mewn gofod gwirioneddol gefnogol.

Cafodd ei lansio ym mis Ionawr 2026 ac, ar adeg ysgrifennu, mae tri gweithdy wyneb yn wyneb wedi'u cynnal, ynghyd ag wyth seminar ginio ar-lein, gyda rhagor wedi'u trefnu hyd ddiwedd 2026. Mae modd archebu lle ar-lein.


Mae wedi fy annog i ddal ati i gymryd rhan ac i beidio â rhoi'r gorau iddi pan fo pethau mor anodd ar hyn o bryd.

Mynychwr dienw yn y seminar Cyflwyniad i Gydgyhyrchu Rhan 1 – Gwerthoedd Sylfaenol.



Labordai Arloesi – Datgloi Llwybrau i Newid

Rachel Tuckett, Dr Ruth Stevenson, Dr Siobhan Maderson, Amie Andrews, Dr Matt Reed, Dr Aimee Morse, yr Athro James Lewis, Dr Huw Lewis, a Dr Owain Lewis



Yn Adroddiad Blynyddol 2025 Cymru Wledig LPIP Rural Wales lansiwyd cysyniad a ffrwd waith y Labordai Arloesi, gan weithio mewn cydweithrediad â'n partner strategol, Canolfan y Dechnoleg Amgen (CAT – gweler proffil partner ar dudalen 23).

Ers y llynedd, mae pob un o Heriau'r Labordai Arloesi wedi cael eu mireinio, cytunwyd ar ddatrysiadau arfaethedig ar gyfer eu profi, ac mae llawer ohonynt eisoes ar waith. Trwy roi prawf ar atebion i'r heriau mewn amgylchedd di-risg, gallwn archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n effeithio ar Gymru Wledig.

Heriau'r Labordai Arloesi

1. 'Cymru Lle mae garddwriaeth sy'n gyfeillgar i natur, sero net, yn cael ei chefnogi a'i gwobrwyo'

Nod y Labordy Arloesi hwn yw cefnogi a gwobrwyo sector garddwriaeth Cymru drwy gryfhau cysylltiadau â'r sector lletygarwch. Gwneir hyn drwy dri phrif lwybr:

- Cael cynnyrch garddwriaethol Cymreig ar fwydlenni lleoliadau lletygarwch.
- Defnyddio'r lleoliadau hyn fel ffordd o hyrwyddo llysiau Cymreig, ac annog bwytywyr i brynu'n uniongyrchol gan dyfwyr.
- Defnyddio'r lleoliadau i

hyrwyddo treftadaeth ffermio cymysg Cymru.

Wedi'i gynnal mewn cydweithrediad â Cultivate a Castell Howell, mae'r arloesi yn cysylltu tyfwyr amaethecolegol newydd yn Fferm y Wern ym Mhowys â grŵp o leoliadau lletygarwch cyfagos, gan gynnwys tafarndai traddodiadol, caffis mewn canolfannau garddio, a bwytai.

Mae'r prosiect hwn yn fodel posibl ar gyfer cynyddu faint o gynnyrch Cymreig sy'n mynd i mewn i farchnad sydd eisoes wedi'i hen sefydlu, ac sydd ar hyn o bryd yn dibynnu'n helaeth ar gadwyni cyflenwi rhyngwladol. Mae'r prosiect yn rhoi pwyslais cryf ar

hyrwyddo cynnyrch Cymreig, a chodi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ac ansawdd yr hyn y gellir ei gynhyrchu, ac sy'n cael ei gynhyrchu eisoes, gan dyfwr yng Nghymru.

Mae'r labordy hwn yn adeiladu ar gysylltiadau proffesiynol a logistaidd sefydledig sydd eisoes yn elfennau allweddol o system fwyd Cymru, ond nad ydynt ar hyn o bryd yn cynhyrchu buddion cryf i arddwyr marchnad, tyfwyr ar raddfa cae, ac/neu'r rheiny sy'n ceisio ehangu eu menter dyfu. Caiff y labordy ei ddatblygu a'i werthuso mewn cyd-destun sy'n ymholi sut y gellir ei ailadrodd i gefnogi

busnesau mewn rhannau eraill o Gymru.

2. 'Adeiladu cartrefi, hapusrwydd a chymuned yng nghefn gwlad Cymru: mynd i'r afael â'r prinder llafur ar draws y diwydiant adeiladu'

Mae'r Labordy Arloesi hwn yn canolbwyntio ar beilot cydgysylltiedig ar brofiad gwaith yng Ngheredigion, sef cynllun i gyflwyno pobl i ystod lawn o yrfaoedd yn yr amgylchedd adeileddig.

Mae hyn yn cynnwys crefftau traddodiadol, yn ogystal â'r nifer o rolau

technegol a phroffesiynol sy'n llai dealladwy ac sy'n cael eu hyrwyddo yn llai aml fel cyfleoedd proffesiynol yn y diwydiant adeiladu.

Bydd y prosiect yn pwysleisio rôl dylunio, adfer, effeithlonrwydd ynni, ôl-osod, rheoli'r gadwyn gyflenwi, rheoli personél, a mwy. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r ddealltwriaeth gyfyngedig sydd gan bobl o is-sectorau'r diwydiant adeiladu, a sut maent yn cysylltu yn ymarferol.

Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth ehangach o'r sector er mwyn eu cefnogi i wneud dewisiadau gyrfa gwybodus ac ysbrydoledig sy'n cynnig boddhad personol a phroffesiynol yn un o sectorau economaidd allweddol Cymru Wledig.

Gall cyfranogwyr gynnwys unigolion ar gyrsgau hyfforddi sy'n gysylltiedig ag adeiladu, pobl ifanc ar raglenni NEET (ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant), pobl sy'n ystyried newid gyrfa, a dysgwyr ôl-16 sy'n astudio ar draws y cwricwlwm.

Bydd cyfranogwyr hefyd yn derbyn hyfforddiant mewn cynaliadwyedd a'i rôl yn y diwydiant adeiladu. Caiff y lleoliadau eu cyfoethogi gan hyfforddiant pellach ac arweiniad at gyfleoedd hyfforddiant ychwanegol priodol ac/neu brofiadau gwaith pellach.

Mae'r partneriaid cyflenwi yn cynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Cyfle, ac adran addysg Cyngor Sir Ceredigion. Nod y prosiect hwn yw casglu tystiolaeth a mewnwleidiadau ar gyfer model y gellir ei ailadrodd ar gyfer coleg hyfforddiant galwedigaethol ôl-16 sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn Llambod.





3. 'Cymru Wledig lle defnyddir chwaraeon i gefnogi a chynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg'

Nod prosiect Amdani! yw nodi ffyrdd newydd o gefnogi a hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon mewn clybiau ar Ynys Môn. Drwy ganolbwyntio ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn chwaraeon mewn ardal fel Ynys Môn – ardal gymharol wledig sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg – mae'r prosiect yn mynd i'r afael â her a nodwyd i fod yn flaenoriaeth gan ymarferwyr polisi ac ymchwilwyr: yn eu hadroddiad i Lywodraeth Cymru, dywedodd Comisiwn Cymunedau Cymraeg fod "angen rhoi sylw penodol i'r sector chwaraeon a hamdden mewn ardaloedd sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg" ac

y dylid "gwneud popeth posibl i sicrhau bod clybiau chwaraeon a hamdden yn gwneud defnydd helaeth o'r Gymraeg".

Roedd cam cyntaf y prosiect yn seiliedig ar ddau weithdy cydweithredol a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref 2025, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o glybiau chwaraeon lleol, aelodau staff Môn Actif, cynrychiolwyr o fudiadau megis Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith a Chlybiau Ffermwyr Ifanc, yn ogystal â swyddogion o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Erbyn diwedd yr ail weithdy, datblygwyd cynigion ar gyfer prosiectau i gefnogi clybiau chwaraeon i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn eu sefydliadau.

Ar ôl dadansoddi'r data a gasglwyd o'r gweithdai, gofynnwyd i IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith arwain ar weithredu'r ymyrraeth,

gan ei fod yn sefydliad sydd wedi arloesi wrth ddatblygu dulliau ymarferol o ddatblygu ymwybyddiaeth iaith a chefnogi defnydd iaith drwy ei gynlluniau hyder ieithyddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i brofi effeithiolrwydd y technegau hyn pan gânt eu cyflwyno yng nghyd-destun mudiadau a chymdeithasau cymunedol a gwirfoddol megis clybiau chwaraeon.

Dyma brif amcanion yr ymyrraeth:

- i. Datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y clybiau, yn enwedig ymhlith aelodau nad ydynt yn gallu siarad yr iaith ar hyn o bryd;
- ii. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith aelodau sydd eisoes yn siarad yr iaith, yn enwedig y bobl sy'n arwain sesiynau hyfforddi;
- iii. Sefydlu tîm o lysgenhadon i arwain y gwaith o gadw at arferion da;

iv. Gwella ein dealltwriaeth o effeithiolrwydd ymyriadau ar ymwybyddiaeth iaith a hyder ieithyddol fel dulliau o gynnal neu gefnogi defnydd cymunedol o'r iaith mewn cyd-destunau newydd.

Mae pum clwb yn cymryd rhan yn y prosiect, ac mae'r ymatebion cychwynnol yn gadarnhaol iawn. Mae'r clybiau hyn yn cynrychioli amrywiaeth o wahanol chwaraeon, oedrannau, lleoliadau, a phroffiliau iaith, ac felly'r nod yw cael mewnwelediad i sut mae'r ymyrraeth yn cael effaith ar draws gwahanol ddemograffegau. Bydd yr ymyriadau'n cael eu gweithredu yn ystod haf 2026.

4. 'Cymru Wledig lle mae cyfleoedd i dyfu, coginio a bwyta gyda'n gilydd ag amrywiaeth eang o bobl, mewn lleoliad fforddiadwy, cyfforddus a chynhwysol'

Gan gofleidio'r thema 'Gwella Lles yn ei Le', mae'r Labordy Arloesi hwn yn anelu at gefnogi cymunedau gwledig i dyfu, coginio, a bwyta gyda'i gilydd drwy sefydlu rhwydwaith bwyta cymunedol.

Mae'r prosiect yn ceisio uno pobl mewn lleoliadau gwledig drwy baratoi a rhannu bwyd sy'n faethlon, yn gynaliadwy, ac yn dymhorol. Mae hefyd yn anelu at greu cyfleoedd cymdeithasol cynhwysol sy'n lleihau unigrwydd, teimlo'n ynysig, a heriau iechyd, ar

yr un pryd â dathlu bwyd a diwylliant lleol.

Mae'r fenter rhwydwaith bwyta cymunedol yn gweithio ar draws rhanbarth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gyda sefydliadau yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, a Cheredigion wrthi'n treialu ffyrdd newydd a llawen o ddod â phobl at ei gilydd drwy fwyd.

Nod y prosiect yw tynnu sylw at sut y gall bwyta cymdeithasol lwyddo mewn lleoliadau gwledig, ysbrydoli cymunedau eraill ledled Cymru, a rhannu'r dysgu gyda llunwyr polisi. Wrth wneud hynny, mae'n ceisio sicrhau bod sefydliadau ar lawr gwlad yn cael eu cefnogi a'u hannog i sefydlu a chynnal gwasanaethau bwyd gwledig.



Proffil partner: Canolfan y Dechnoleg Amgen



